# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 14 Medi 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
8 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16


## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Gwasanaethau Homeopatheg

**C5 Rhodri Glyn Thomas:** A yw Jane Hutt yn bwriadu datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau homeopatheg yng Nghymru? (OAQ6712)

**Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Yn yr un modd â'r holl wasanaethau iechyd, mae darparu gwasanaethau homeopatheg yn gyfrifoldeb i'r awdurdodau iechyd sydd yn gorfod asesu'r anghenion yn eu hardal a darparu gwasanaethau priodol o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddynt. Rhaid profi'n wyddonol fod y defnydd o unrhyw driniaeth yn yr NHS, gan gynnwys therapïau amgen fel homeopatheg, yn glinigol effeithiol a diogel.

### Gwasanaethau Epilepsi

**C6 Jocelyn Davies:** Pa gynlluniau sydd gan Jane Hutt i wella gwasanaethau epilepsi yng Nghymru? (OAQ6665)

**Jane Hutt:** Cyfrifoldebau awdurdodau iechyd yw comisiynu gwasanaethau ar gyfer epilepsi yn eu priod ardaloedd. Bydd yr adroddiad ar epilepsi gan y Grŵp Ymgynghorol ar Safonau Clinigol, a nododd egwyddorion a ddylai fod yn sail i ymdrechion i wella gwasanaethau, yn ychwanegiad gwerthfawr at yr wybodaeth sydd eisoes ar gael i reolwyr a gweithwyr proffesiynol yr NHS sydd yn cyflawni'r rôl hon.

### Health Solutions Wales

**C7 Cynog Dafis:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad byr ynghylch rôl Health Solutions Wales o fewn yr NHS yng Nghymru? (OAQ6664)

**Jane Hutt:** Yr oedd Health Solutions Wales yn rhan o gorff mwy, sef Awdurdod Gwasanaethau Cyffredin Iechyd Cymru a ddiddymwyd ar 1 Ebrill 1999. Ers hynny, mae'n rhan o Awdurdod Iechyd Bro Taf. Ei rôl yn awr, fel y bydd yn y dyfodol, yw darparu gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu Cymru gyfan i'r NHS yng Nghymru mewn achosion lle y darperir y gwasanaethau hyn yn fwyaf effeithlon ac effeithiol oddi mewn i'r NHS. Rhai o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd yw prisio presgripsiynau, rheoli telegyfathrebu, datblygu a chefnogi systemau TG, gwasanaethau biwro TG, casglu a dadansoddi gwybodaeth, ac ymgynghori technegol.

### Plant Anabl o dan Pump Oed

**C8 Janet Davies:** A oes cynlluniau gan Jane Hutt i ddarparu gofal a fydd yn cynorthwyo yn y gwaith o ddatblygu plant anabl o dan bump oed i'w llawn botensial? (OAQ6698)

**Jane Hutt:** Mae sawl rhaglen ar waith yng Nghymru sydd yn ymdrin ag anghenion plant ag anableddau. Mae'r rhaglen Plant yn Gyntaf yn ceisio sicrhau bod plant ag anghenion cymdeithasol penodol, sydd yn deillio o anabledd neu gyflwr iechyd, yn byw mewn lleoliadau priodol yn y gymuned. Yn ogystal â

hynny, gellir defnyddio'r rhaglen Cychwyn Cadarn i ddarparu gwasanaethau arbenigol i blant sydd ag anableddau sylweddol.

Monitrir gweithrediad y rhaglenni hyn yn fanwl a chyhoeddir cyfarwyddyd newydd ar gyfer y rhaglen Plant yn Gyntaf cyn hir i osod amcanion newydd er mwyn gwella gwasanaethau ar gyfer plant anabl a'r rhai sydd yn gofalu amdanynt.

Yr ydym yn ymwybodol bod problemau ynghylch nifer o therapïau i blant, gan gynnwys therapi iaith a lleferydd, ffisiotherapi a therapi galwedigaethol. Mae'r Cynulliad yn cydariannu astudiaeth ymchwil gynhwysfawr, gyda'r Adran Addysg a Chyflogaeth a'r Adran Iechyd, sydd yn edrych ar dueddiadau ac anawsterau mewn therapi iaith a lleferydd. Disgwylir adroddiad dros dro cyn hir y gobeithiwn wneud argymhellion ar ei sail ar gyfer ymgynghori ehangach ledled Cymru.

### Y Cynllun 25 Mlynedd ar gyfer yr NHS

**C9 David Melding:** Pa bryd y bydd Jane Hutt yn gwneud cyhoeddiad ynghylch ei chynllun 25 mlynedd ar gyfer yr NHS? (OAQ6628)

**Jane Hutt:** Mae Strategaeth NHS Cymru i fod i gael ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghori yn Ionawr 2001. Ni fwriedir iddi fod yn gynllun manwl ar gyfer y 25 mlynedd nesaf, ond yn hytrach i fod yn fodd i fwrw golwg dros y tymor hir wrth ddarparu fframwaith strategol ar gyfer yr NHS yng Nghymru yn y tymor byr i ganolig.

### Atebolrwydd Ymddiriedolaethau'r NHS

**C10 Pauline Jarman:** Sut y mae Jane Hutt yn bwriadu sicrhau bod ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru yn atebol i'r cyhoedd? (OAQ6697)

**Jane Hutt:** Rhoddais ar ddeall yn fy natganiad 'Dyfodol Iachach i Gymru' ar 12 Gorffennaf, bod rhaid i'r cyhoedd fod yn gysylltiedig â chynllunio a ffurfio'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen. Yr ydym yn mynd rhagom yn dda ag adroddiad cloriannu o'r gweithgaredd presennol i alluogi'r cyhoedd a fydd yn dynodi meysydd lle y caiff cleifion fwy o lais yn eu triniaeth eu hunain ac yn y modd y mae'r NHS yn gweithio. Bydd hyn yn arwain at ddatblygu strategaeth cyfraniad cyhoeddus i'r NHS y flwyddyn nesaf. Yr ydym hefyd yn datblygu siarter iechyd a gofal cymdeithasol newydd i sicrhau bod pobl yn gwybod yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan eu gwasanaethau lleol a fframwaith rheoli perfformiad i fonitro cynnydd cyrff yr NHS. Yn Rhagfyr byddwn yn cyhoeddi amrediad o ddangosyddion clinigol ar lefel yr ymddiriedolaethau a fydd yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'r Cynulliad, sef clefyd y galon, canserau a salwch meddwl.

### Bwyta'n Iach ymhlith Plant Ysgol a Phobl Ifanc

**C11 Owen John Thomas:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ynghylch y datblygiadau tuag at greu patrwm o fwyta'n iach ymhlith plant ysgol a phobl ifanc? (OAQ6668)

**Jane Hutt:** Dylid hybu bwyta'n iach ymysg plant ysgol a phobl ifanc er mwyn sefydlu patrymau o fwyta'n iach y gellir parhau â hwy yn ddiweddarach yn eu hoes. I'r diben hwn yr ydym yn cefnogi datblygu bwyta'n iach yn yr ysgol ac mewn lleoliadau yn y gymuned drwy gynlluniau ysgolion hybu iechyd, siopau ffrwythau mewn ysgolion, cyfarwyddyd ynghylch safonau maeth ar gyfer prydau ysgol a mentrau bwyd cymunedol.

Yr ydym yn annog yr holl adrannau addysg lleol i weithio mewn partneriaeth â'u hawdurdodau iechyd lleol er mwyn datblygu cynlluniau ysgolion hybu iechyd, a gaiff ymgeisio i gael eu hachredu fel rhan o rwydwaith Cymru o gynlluniau ysgolion iach.

Mewn perthynas â’r cwricwlwm a ddysgir, mae ACCAC yn cwblhau cyfarwyddyd ar fwyd a iechyd bwyd yn y cwricwlwm ysgolion yng Nghymru.

Mae prosiect ymchwil, a ariannir gan y Cynulliad a’r Asiantaeth Safonau Bwyd, ar gyfraniad siopau ffrwythau mewn ysgolion at wella diet plant ysgol, bron â’i gwblhau. Cynhyrchwyd llyfryn i helpu ysgolion wrth sefydlu siopau ffrwythau. Bydd canlyniadau’r ymchwil yn helpu i arwain polisi yn y dyfodol. Bydd ymgynghori ar safonau maethol ar gyfer ciniawau ysgol yn digwydd eleni.

Bydd y Cynulliad yn ariannu sawl menter fwyd gymunedol eleni, yn ogystal â chynnal gweithdai i gynorthwyo gweithwyr iechyd proffesiynol i redeg y mentrau hyn. Bydd y mentrau hyn yn cynnwys siopau ffrwythau mewn ysgolion a chlybiau brecwast mewn ysgolion a dosbarthiadau coginio i blant a phobl ifanc yn yr ysgol ac mewn lleoliadau yn y gymuned.

**Cyfleusterau Cyfieithu Iaith Arwyddion Prydain**

**C12 Karen Sinclair:** Pa ddatblygiadau a fu o ran cynnal trafodaethau ag Anabledd Cymru ynghylch ymarferoldeb darparu cyfleusterau cyfieithu Iaith Arwyddion Prydain drwy systemau fideo-gynadledda, mater y cyfeiriwyd ato yn eich llythyr dyddiedig 25 Hydref 1999? (OAQ6650)

**Jane Hutt:** Yn ogystal â thrafodaethau ag Anabledd Cymru, bu’r Cynulliad Cenedlaethol mewn cysylltiad â swyddogion o swyddfa Cymru o’r Comisiwn Hawliau Anabledd, er mwyn dod â’r mater hwn i’w sylw. Rhagwelir cynnal trafodaethau pellach yn y cyfarfod nesaf â swyddogion o’r cyrff hyn, a drefnwyd ar gyfer mis Hydref.

**Cleifion yn aros am Driniaeth Anffrwythlondeb**

**C13 Nick Bourne:** A wnaiff Jane Hutt restru a rhoi datganiad ar y nifer o gleifion sydd ar y rhestr aros am driniaeth anffrwythlondeb ym mhob Ymddiriedolaeth NHS yng Nghymru? (OAQ6694)

**Jane Hutt:** Nid yw’r Cynulliad yn dal yr wybodaeth hon gan nad yw gwybodaeth a gesglir yn ganolog ar restrau aros ymddiriedolaethau’r NHS ond ar gael yn ôl arbenigeddau, ac nid yn ôl triniaethau.

**Gwasanaethau Anffrwythlondeb**

**C14 Geraint Davies:** A oes gan Jane Hutt gynlluniau ar gyfer datblygu’r gwasanaethau anffrwythlondeb yng Nghymru? (OAQ6713)

**Jane Hutt:** Mae’n ofynnol i awdurdodau iechyd ymgynghori â’r cyhoedd a phennu blaenoriaethau lleol. Golyga hyn fod rhai triniaethau’n fwy blaenllaw yng nghynlluniau rhai awdurdodau iechyd nag mewn eraill.

Bu arolwg yn ddiweddar o ddarpariaeth gyfredol yr awdurdodau iechyd o wasanaethau anffrwythlondeb ac mae’n cael ei arfarnu. Yr ydym ni a’r Adran Iechyd yn bwriadu ei gyhoeddi ddiwedd Medi.

Mae’r gwasanaeth anffrwythlondeb ar agenda’r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 11 Hydref 2000 a byddaf yn ystyried dyfodol y gwasanaeth hwn yng ngoleuni’r ddadl honno a’r adnoddau sydd ar gael.

**Argyfwng Gwelyau yn y Gaeaf**

**C15 Michael German:** Pa gamau y mae Jane Hutt yn eu cymryd i sicrhau nad yw’r NHS yng Nghymru yn wynebu argyfwng o ran gwelyau yn y gaeaf? (OAQ6696)

**Jane Hutt:** Ar 17 Mai, dyrennais £40 miliwn ychwanegol i’w wario gan yr NHS ar amrediad o fentrau, gan gynnwys gweithio ar y cyd â gwasanaethau cymdeithasol ac eraill, er mwyn dygymod â phwysau

brys drwy'r flwyddyn, ac er mwyn i'r NHS leihau amseroedd a rhestrau aros. Sefydlais dasglu hefyd i ymchwilio i achosion y pwysau ar yr NHS a grewyd gan dderbyniadau brys ac i sicrhau cyngor arbenigol ar y modd i wella eu dull o reoli ymhellach byth.

Adroddodd y tasglu i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 5 Gorffennaf a chyhoeddodd gyfarwyddyd manwl ar gyfer yr NHS a'i bartneriaid yn Awst.

**Ymddiriedolaethau Gofal Lleol**

**C16 David Melding:** Pryd y bydd Jane Hutt yn sefydlu ymddiriedolaethau gofal lleol yng Nghymru? (OAQ6629)

**Jane Hutt:** Mae ymddiriedolaethau gofal lleol yn gynnig a geir yng Nghynllun Cenedlaethol yr NHS i Loegr. Bydd y strategaeth gofal sylfaenol yng Nghymru, sydd yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd, yn ystyried ym mha fodd y dylid darparu'r gwasanaethau hyn yng Nghymru mewn amgylchiadau sydd yn adlewyrchu ein blaenoriaethau.

**Amseroedd Aros Offthalmeg yn Sir Benfro**

**C17 Christine Gwyther:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar yr amseroedd aros offthalmeg yn Sir Benfro? (OAQ6633)

**Jane Hutt:** Mae'r holl awdurdodau iechyd wedi ymrwymo i gyrraedd y targedau a gytunwyd yn gynharach eleni pan ddyrannwyd £40 miliwn i leihau rhestrau aros ac ymateb i bwysau brys. Mae'r ymddiriedolaethau oddi mewn i ardal pob awdurdod iechyd yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau y cyrhaeddir y targedau. Yn Sir Benfro, mae nifer o fentrau ar waith eisoes, yn cynnwys gwasanaethau ar benwythnosau a threfniadau gweithio ar y cyd rhwng ymddiriedolaethau.

**Argaeledd Gwelyau NHS yn ystod yr Haf**

**C18 Michael German:** A wnaiff Jane Hutt roi datganiad ar nifer y gwelyau NHS a oedd ar gael yn ystod yr haf? (OAQ6695)

**Jane Hutt:** Nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn casglu gwybodaeth am niferoedd gwelyau fel mater o drefn. Mae nifer y cleifion a welir gan yr NHS yng Nghymru yn parhau i godi. Cododd y gweithgaredd dewisol o 7,100 (1.5 y cant) yn y flwyddyn hyd Fehefin 2000, tra cododd y gweithgaredd brys o 7,800 (2.5 y cant) yn yr un cyfnod.

O ganlyniad i waith y Tasglu Pwysau Brys a chydag arian o'r £40 miliwn ychwanegol a ddarparwyd eleni i'r NHS, mae nifer y gwelyau gofal aciwt a chritigol yn cael ei gynyddu. Yn ogystal â hynny, gwnaeth y tasglu gyfres o argymhellion i leihau nifer y cleifion y mae angen mynd â hwy i ysbyty ac i sicrhau y gellir rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn brydlon i leoliadau priodol, gan leihau'r pwysau ar welyau aciwt.

**Amseroedd Aros am Lawdriniaethau Cataract**

**C19 Richard Edwards:** A wnaiff Jane Hutt roi datganiad ar yr amseroedd aros am lawdriniaethau cataract ar y llygaid? (OAQ6634)

**Jane Hutt:** Pan ddyrennais y £40 miliwn i leihau amseroedd aros a phwysau brys yn gynharach eleni, cytunwyd ar dargedau eglur gyda'r NHS. Y targed ar gyfer cataractau yw na ddylid cael yr un claf sydd wedi bod yn disgwyl am fwy na chwe mis am driniaeth erbyn diwedd Mawrth 2001. Mae holl gyrff yr NHS yn cydweithredu er mwyn cyrraedd y targedau hyn gyda chamau sydd yn briodol i amgylchiadau lleol. Yn Sir Benfro, mae nifer o fentrau ar waith eisoes, yn cynnwys gwasanaethau ar benwythnosau a threfniadau gweithio ar y cyd rhwng ymddiriedolaethau.

**Strategaeth Iechyd Rhywiol**

**C20 Gareth Jones:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad byr ar hynt y strategaeth iechyd rhywiol yng Nghymru? (OAQ6715)

**Jane Hutt:** Debyniwyd nifer fawr o sylwadau mewn ymateb i'r ddogfen ymgynghorol ar y strategaeth iechyd rhywiol. Yng ngoleuni'r rhain, lluniwyd cynllun gweithredu diwygiedig ôl-ymgynghori, ac fe'i dosbarthir yn ystod mis Hydref.

**MRSA**

**C21 David Davies:** Pa gamau sydd yn cael eu cymryd i ostwng yr achosion o staffylococws awrëws sydd yn gwrthsefyll methisilin yn ysbytai Gwent? (OAQ6680)

**Jane Hutt:** Rhannaf eich pryderon ynghylch y lefelau o heintiadau staffylococws awrëws sydd yn gwrthsefyll methisilin yng Ngwent ac yng Nghymru gyfan.

Mae nifer o strategaethau ar waith ledled Cymru, sydd yn annog mabwysiadu gweithdrefnau effeithiol i reoli heintiadau, ynghyd â chyfarwyddyd helaeth, sydd wedi ei ddosbarthu.

Mae cyfarwyddyd ychwanegol a gyhoeddwyd yn 1998 yn y *Journal of Hospital Infection* (Cyfrol 39, tudalennau 253-290) wedi ei fabwysiadu ledled y DU fel model ar gyfer yr arfer gorau. Teitl y cyfarwyddyd hwn gan weithgor ar y cyd o Gymdeithas Brydeinig Cemotherapi Gwrthficrobaidd, Cymdeithas Heintiau Ysbyty a Chymdeithas Nyrsys Rheoli Heintiadau yw 'Revised Guidelines for Control of Methicillin Resistant Staphylococcus Aureus Infection in Hospitals'.

Mae Grŵp Strategaeth Heintiadau Cymru yn archwilio'r modd y caiff heintiadau mewn ysbytai eu trafod a'u rheoli. Rhai enghreifftiau o'r mentrau yr ymchwilir iddynt ar hyn o bryd yw rhaglen wella dair blynedd sydd i'w monitro drwy'r Grŵp Strategaeth Clefydau Heintus, adolygiadau ffurfiol gan ymddiriedolaethau iechyd o'u trefniadau rheoli heintiadau a chamau gan awdurdodau iechyd i sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith sydd yn darparu ar gyfer gweithredu trefniadaeth rheolaeth glinigol.

**Offer Clywedeg**

**C22 Jenny Randerson:** Pa gynlluniau sydd gan Jane Hutt i wella safon yr offer clywedeg sydd ar gael i gleifion yng Nghymru? (OAQ6646) [R]

**Jane Hutt:** Comisiynodd yr Adran Iechyd adolygiad o wasanaethau cymhorthion clywed tua thair blynedd yn ôl a gwahoddodd Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i ddarparu safbwynt ehangach a chyfrannu syniadau ar ddewisiadau cyraeddadwy ar gyfer newid. Cyflwynwyd y casgliadau i Weinidogion yr Adran Iechyd a benderfynodd gynnal profion peilot ar rai o'r dewisiadau a argymhellwyd.

Dechreuwyd ar astudiaeth beilot yn Lloegr i asesu effeithiolrwydd cymhorthion clywed digidol, y newidiadau sydd yn angenrheidiol er mwyn rhoi darpariaeth y gwasanaeth ar waith ac adolygu'r modd mwyaf priodol o gyflenwi cymhorthion clywed.

Mae fy swyddogion mewn cysylltiad agos â'r datblygiadau a byddaf yn edrych ar gasgliadau'r adolygiad gyda golwg ar eu cyflwyno, lle y bo'n briodol, yn y gwasanaeth yng Nghymru. Penderfynais beidio â chynnal cynlluniau peilot tebyg yng Nghymru gan na fyddai hyn ond yn dyblygu'r ymchwil yn Lloegr. Fodd bynnag, yr wyf wedi cytuno y bydd y Cynulliad yn gweithio gyda Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar Cymru i adolygu ac ystyried dewisiadau ar gyfer newidiadau yn y gwasanaethau clywedeg presennol yng Nghymru gan gynnwys technoleg newydd.

**Marchnad Fewnol yr NHS**

**C23 Ieuan Wyn Jones:** A oes gan Jane Hutt gynlluniau i ddiddymu'r farchnad fewnol yn yr NHS yng Nghymru? (OAQ6736)

**Jane Hutt:** Mae'r trefniadau marchnad fewnol yn yr NHS wedi eu disodli gan ddull mwy cydweithredol o gynllunio a darparu gwasanaethau o ganlyniad i'r papur gwyn 'Rhoi Cleifion yn Gyntaf' a'r Ddeddf Iechyd 1999 a ddilynodd. Mae rhaglenni gwella iechyd yn un enghraifft o'r modd yr ydym yn datblygu dull mwy integredig o gynllunio gwasanaethau, nid oddi mewn i'r NHS yn unig ond gyda phartneriaid eraill, er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau a chynigion a gytunwyd ar y cyd ar lefel leol. Ategir gweithrediad y rhaglenni gwella iechyd gan gytundebau tymor hir rhwng ymddiriedolaethau'r NHS, awdurdodau iechyd a grwpiau iechyd lleol, sydd yn cymryd lle contractau ac yn canolbwyntio o'r newydd ar gydweithrediad, ansawdd a chanlyniadau.

**Lawdriniaethau ar y Galon a Bwrcaswyd oddi wrth Ysbytai tu allan i Gymru**

**C24 Pauline Jarman:** Faint o lawdriniaethau ar y galon a bwrcaswyd gan ymddiriedolaethau iechyd Cymru oddi wrth ysbytai y tu allan i Gymru? (OAQ6666)

**Jane Hutt:** Mae comisiynu llawdriniaeth gardïaidd yn gyfrifoldeb i Gomisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, sydd yn gweithredu ar ran y pum awdurdod iechyd yng Nghymru. Cyflawnwyd 448 o lawdriniaethau'r galon ar gleifion o Gymru yn ysbytai'r NHS yn Lloegr yn ystod y flwyddyn ariannol 1998-99 a 444 yn y flwyddyn ariannol 1999-2000.

Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn ymwneud â llawdriniaethau y talwyd amdanynt gan yr NHS ac a gyflawnwyd ar rai sydd yn preswylio yng Nghymru yn ysbytai'r NHS yn Lloegr.

**Therapi Galwedigaethol Pediatrig**

**C25 Geraint Davies:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad byr ar ddyfodol therapi galwedigaethol pediatrig yng Nghymru? (OAQ6716)

**Jane Hutt:** Yr ydym yn ymwybodol bod problemau ynghylch nifer o therapïau i blant, yn cynnwys therapi iaith a lleferydd, ffisiotherapi a therapi galwedigaethol. Mae adrannau iechyd ac addysg y Cynulliad wrthi'n casglu amrediad o wybodaeth o bob un o'r gwasanaethau pwysig hyn er mwyn dynodi rhwystrau rhag darparu gwasanaeth effeithiol. Sefydlwyd gweithgor therapi o dan adain Grŵp Ymgynghorol Cymru ar anghenion addysgol arbennig er mwyn ystyried a rhoi cyngor ar y materion hyn.

At hynny, mae'r Cynulliad yn cydariannu astudiaeth ymchwil gynhwysfawr, mewn partneriaeth â'r Adran Addysg a Chyflogaeth a'r Adran Iechyd, sydd yn edrych ar dueddiadau, anawsterau ac arfer da yn y ddarpariaeth therapi iaith a lleferydd ledled Cymru a Lloegr gan gynnwys yng Nghymru y dimensiwn Cymraeg.

Disgwylir adroddiad dros dro yn ymdrin â chyfnod cyntaf yr astudiaeth ymchwil cyn bo hir a, drwy ymgynghori â'r gweithgor, gobeithiwn lunio adroddiad ac argymhellion ar gyfer ymgynghori ehangach ledled Cymru cyn gynted ag y bo modd.

**Anghydraddoldeb ym Maes Iechyd**

**C26 Richard Edwards:** Pa gamau sydd yn cael eu cymryd i leihau anghydraddoldeb ym maes iechyd yng Nghymru? (OAQ6635)

**Jane Hutt:** Mae lleihau anghydraddoldebau iechyd yn flaenoriaeth yn 'Gwellcymru.com'. Mae'r Cynulliad yn ymdrin mewn modd rhagweithiol â phenderfynyddion cymdeithasol ac economaidd yr anghydraddoldebau. Mae'r camau a gymerir yn cynnwys cynghreiriau iechyd lleol, Cymunedau'n

Gyntaf, adolygu'r dyraniad o adnoddau'r NHS ac ysgolion iach. Bydd grŵp arbenigol ar ddangosyddion anghydraddoldeb iechyd yn adrodd ym mis Hydref.

**Canser y Prostad a'r Gaill**

**C27 Alison Halford:** Pa gynlluniau sydd gan Jane Hutt i sicrhau fod digon o arian ar gael yng Nghymru i leihau canser y prostad a'r gaill? (OAQ6658)

**Jane Hutt:** Mynd i'r afael â chanser yw un o flaenoriaethau pennaf y Cynulliad ar gyfer yr NHS yng Nghymru. Mae gennym gyfeiriad strategol eglur ar gyfer gwasanaethau canser drwy Gymru, fel y'i disgrifir yn Adroddiad Cameron, a sefydlwyd y Grŵp Cyd-drefnu Gwasanaethau Canser i roi argymhellion yr Adroddiad ar waith. Mae'r Grŵp hwn wedi cynhyrchu Safonau Lleiaf Cymru Gyfan ar gyfer y prif ganserau fel canserau wrolegol, sydd yn cynnwys canser y brostad a'r gaill.

Ar 27 Gorffennaf, cyhoeddais fod £4 miliwn o'r £25 miliwn sydd yn weddill eleni o'r adnoddau ychwanegol sylweddol ar gyfer iechyd a gyhoeddwyd ar ôl Cyllideb Canghellor y Trysorlys, yn cael ei ddarparu i wasanaethau canser yng Nghymru. Bydd yr adnoddau ychwanegol hyn yn gyfraniad o bwys at gyrraedd safonau lleiaf Cymru gyfan.

Bydd NHS Cymru yn elwa o gyllid sylweddol o'r loteri ar gyfer mentrau newydd, gan gynnwys y £9.75 miliwn a ddarparwyd ar gyfer gofal canser dros y tair blynedd nesaf o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Defnyddir yr arian hwn i gefnogi blaenoriaethau strategol cenedlaethol a lleol, lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd, hybu'r arfer gorau a symbylu datblygiadau arloesol.

Mae ymwybyddiaeth o faterion iechyd a darganfod buan yn holl bwysig er mwyn cael canlyniad llwyddiannus i driniaeth. Safon Iechyd Gorfforaethol y Cynulliad yw'r nod ansawdd ar gyfer hybu iechyd yn y gweithle yng Nghymru. Drwy'r Safon Iechyd Gorfforaethol yr ydym yn annog gweithleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth am faterion iechyd dynion (a benywod), i ddarparu gwybodaeth i ddynion am arwyddion a symptomau canser y brostad a'r gaill, ac i annog dynion i gysylltu â meddyg teulu'n ddi-oed os yw rhyw un o'r symptomau hyn yn ymddangos.

Rhoddir ystyriaeth i sefydlu rhaglen sgrinio canser y brostad os a phan fydd technegau sgrinio a thrin wedi datblygu'n ddigonol. Cedwir golwg manwl ar y dystiolaeth gyfredol sydd o blaid sefydlu rhaglen sgrinio gan y Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol.

Bydd ymchwil i ganser y brostad yn elwa o fuddsoddi sylweddol gan yr Adran Iechyd a byddwn yn monitro datblygiadau yn y maes hwn yn fanwl.

Yr wyf hefyd wedi gofyn i'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol ymestyn ei raglen waith bresennol ar gyfer canser. Dros y ddwy flynedd nesaf bydd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol yn cyflawni rhaglen waith gynhwysfawr i ddarparu cyfarwyddyd i glinigwyr a rheolwyr a gwybodaeth i gleifion. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys cyfarwyddyd ar gyfer canserau wrolegol.

**Rhestr Aros am Lawdriniaethau Cataract**

**C28 Mick Bates:** Sut mae Jane Hutt yn bwriadu diddymu'r rhestr aros am lawdriniaethau cataract yng Nghymru? (OAQ6656)

**Jane Hutt:** Mae'r awdurdodau iechyd wedi cytuno i gyrraedd y targed o ddileu arhosiadau o dros chwe mis am lawdriniaethau cataract erbyn diwedd Mawrth 2001. Mae pob awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth â'i ymddiriedolaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir y targed. Lle y bo angen, recriwtir staff ychwanegol ac mae pob ardal wedi datblygu amrediad o fesurau sydd yn briodol i'w hamgylchiadau lleol. Ariannir y mesurau hyn o'r £40 miliwn a ddarperais yn gynharach eleni.

### Comisiwn Gwasanaethau Iechyd

**C29 Elin Jones:** Sut y mae'r Comisiwn Gwasanaethau Iechyd arbenigol yn cael ei gyllido? (OAQ6707)

**Jane Hutt:** Sefydlwyd Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yng ngwanwyn 1999 fel menter ar y cyd gan y pum awdurdod iechyd yng Nghymru i gynllunio a chomisiynu gwasanaethau arbenigol ar eu rhan.

### Arian Canolog ar gyfer Darparu Triniaeth yn erbyn Anffrwythlondeb

**C30 Karen Sinclair:** A oes gan Jane Hutt gynlluniau i gyflwyno arian canolog o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer darparu triniaeth yn erbyn anffrwythlondeb ledled Cymru? (OAQ6651)

**Jane Hutt:** Nid oes gennyf gynlluniau i wneud hynny ar hyn o bryd. Lle'r awdurdodau iechyd yw pennu blaenoriaethau lleol ar ôl ymgynghori.

Trafodir gwasanaethau anffrwythlondeb gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 11 Hydref 2000 a byddaf yn ystyried dyfodol y gwasanaeth hwn yng ngoleuni'r ddadl honno a'r adnoddau sydd ar gael.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16

### Archifo Dogfennau Cyhoeddus

**C4 Gareth Jones:** A wnaiff yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 ddatganiad ar ei gyfrifoldebau mewn perthynas ag archifo dogfennau cyhoeddus yng Nghymru? (OAQ6740)

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 (Tom Middlehurst):** O dan amodau'r Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958, yr Archifdy Gwladol yn Kew sydd yn rheoli'r system cofnodion cyhoeddus ar gyfer Cymru a Lloegr ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Arglwydd Ganghellor.

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn darparu y bydd y Cynulliad Cenedlaethol, os penderfyna felly, yn gallu sefydlu archifdy cyhoeddus ar wahân i Gymru. Mae hyn yn fater o gryn bwys, y bydd arnom angen amser i'w ystyried.

Yr oedd adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol baratoi cynllun yn nodi ei drefniadau ar gyfer gofal, cadwraeth a rheolaeth ei gofnodion. Archwiliwyd y cynlluniau hyn gan banel ymgynghorol a benodwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Mae'r Archifdy Gwladol yn Kew yn rheoli'r cofnodion a drosglwyddwyd iddo o'r hen Swyddfa Gymreig ac o rai o'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Mae'r Adran Gwasanaethau Rheoli, sydd yn rhan o Grŵp Gwasanaethau Personél, Rheoli a Busnes y Cynulliad, yn gyfrifol am y cwbl o gofnodion yr hen Swyddfa Gymreig a'r Cynulliad o'r adeg y cânt eu creu neu eu derbyn hyd nes y'u gwaredir, un ai drwy eu dinistrio, neu ar ôl 30 mlynedd drwy eu trosglwyddo i'r Archifdy Gwladol yn Kew i'w cadw'n barhaol. Ceir Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth sydd yn ffurfioli'r trefniant hwn. Mae'r Adran Gwasanaethau Rheoli yn ymgymryd â phrosiect ar hyn o bryd i adolygu polisïau a gweithdrefnau rheoli cofnodion y Cynulliad mewn cysylltiad â'r Archifdy Gwladol a chyrff perthnasol oddi mewn i Gymru.

### Gweithwyr Sefydliadau Sector Cyhoeddus (Y Fargen Newydd)

**C5 Cynog Dafis:** A wnaiff Tom Middlehurst ddatganiad ar y nifer o bobl sydd wedi cael eu cyflogi gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru trwy'r Fargen Newydd? (OAQ6739)

**Tom Middlehurst:** Mae polisi cyflogaeth wedi ei gadw gan Lywodraeth y DU, sydd yn arwain ar ariannu a chyflenwi'r Fargen Newydd. Yng Nghymru, gwnaiff hyn mewn partneriaeth â'r Cynulliad Cenedlaethol a chyrff cyfrannol yng Nghymru.

Cesglir ystadegau ar y nifer o gyfranogion a gyflogir gan gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru gan y Gwasanaeth Cyflogaeth ers Ebrill 1999 a dangosant fod bron 1,100 o gyfranogion y Fargen Newydd wedi eu cyflogi gan gyrff sector cyhoeddus, hyd ddiwedd Gorffennaf 2000. Er bod hyn yn gychwyn da, mae'n amlwg bod llawer mwy o gyfle i'r sector cyhoeddus yng Nghymru ddarparu cefnogaeth i'r rhaglen bwysig hon. Anogaf y cyrff hynny yn y sector cyhoeddus nad ydynt eto wedi arwyddo cytundeb Bargen Newydd gyda'r Gwasanaeth Cyflogaeth i gysylltu â'u canolfan gwaith leol i ddarganfod mwy am y modd y gall y Fargen Newydd eu helpu a sut y gallant chwarae eu rhan wrth helpu i fynd i'r afael â diweithdra tymor hir.

**Canolfan Mileniwm Cymru (Dyddiad Cwblhau)**

**C6 Gareth Jones:** A wnaiff Tom Middlehurst ddatganiad ar y dyddiad cwblhau a ragwelir ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru? (OAQ6729)

**Tom Middlehurst:** Nid oes dyddiad cwblhau ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru. Mae pennu dyddiad o'r fath yn fater i fwrdd Canolfan Mileniwm Cymru ar adeg pan yw'n sicr y gall y prosiect fynd rhagddo hyd at ei gwblhau.

**Gwaith a Chynnydd Ymddiriedolaeth Stadiwm y Mileniwm**

**C7 Lorraine Barrett:** A wnaiff Tom Middlehurst ddatganiad ynghylch y gwaith a'r cynnydd y mae Ymddiriedolaeth Stadiwm y Mileniwm yn ei wneud ar hyn o bryd? (OAQ6674)

**Tom Middlehurst:** Cyfrannodd Comisiwn y Mileniwm swm sylweddol at gostau adeiladu Stadiwm y Mileniwm. Yr oedd sefydlu'r Ymddiriedolaeth wedi ei osod yn amod ar y grant gan y Comisiwn. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn derbyn 10 y cant o'r elw dosbarthadwy yn ogystal ag ardoll ar docynnau. Nid oedd gan y Swyddfa Gymreig ran yn hynny ac mae'n fater i Gomisiwn y Mileniwm a Stadiwm y Mileniwm ccc.

Mae cronfa'r Ymddiriedolaeth i'w darparu i'r gymuned ehangach yng Nghymru. Bwriedir i'r gronfa gael ei defnyddio i gefnogi hyrwyddo addysg gorfforol a diwylliannol yn y gymuned.

Fe'm hysbyswyd bod Comisiwn y Mileniwm yn sefydlu aelodaeth bwrdd yr Ymddiriedolaeth ac yn disgwyl enwebiadau ar hyn o bryd oddi wrth Undeb Rygbi Cymru a Dinas a Sir Caerdydd. Mae'r Comisiwn yn gobeithio cwblhau'r aelodaeth erbyn diwedd y mis yma ac wedyn bydd yn trefnu'r cyfarfod cyntaf o fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Delir yr arian a grewyd hyd yn hyn gan Stadiwm y Mileniwm ccc ond mae wedi ei gadw ar wahân.

**Annog Pobl dros 60 oed i Gymryd Rhan mewn Chwaraeon**

**C8 Glyn Davies:** Pa gamau y mae Tom Middlehurst yn eu cymryd i annog pobl dros 60 oed i gymryd rhan mewn chwaraeon? (OAQ6670) [R]

**Tom Middlehurst:** Sianelir cymorth ariannol y Cynulliad i chwaraeon drwy Gyngor Chwaraeon Cymru. Lansiodd y Cyngor ei strategaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru ym Mehefin 1999. Er bod y Cyngor yn ceisio sefydlu cyfleoedd i bawb gymryd rhan mewn chwaraeon, mae ei strategaeth yn pennu mai blaenoriaethau'r Cyngor yw canolbwyntio ar annog plant o oedran ysgol, benywod a merched a rhai ag anableddau i gymryd rhan.

Mae'r strategaeth hefyd yn dynodi cyfres o dargedau eglur i wella lefelau cyfranogiad ym mhob grŵp oedran. Mae'r Cyngor yn cymryd camau cadarnhaol i sicrhau bod chwaraeon ar gael i bawb, beth bynnag

fo'u hoed, eu hanabledd neu eu lefel gallu.

Mae'r Cyngor Chwaraeon yn darparu cymorth ariannol i gyrff rheoli chwaraeon unigol. Mae'r rhain yn darparu cyllid sylweddol ar gyfer y gweithgareddau hynny, fel bowls, sydd wedi arfer denu rhai o'r grŵp oedran dros 60 i gymryd rhan.

Mae gan awdurdodau lleol ddarpariaeth sylweddol o wasanaethau chwaraeon a hamdden i bob grŵp oedran.

### Ffioedd Hyfforddi (Effaith ar Niferoedd sydd yn Cofrestru ar gyfer Cyrsiau Addysg Uwch)

**C9 Michael German:** A wnaed unrhyw asesiadau ynghylch effaith ffioedd hyfforddi ar niferoedd y myfyrwyr sydd yn cofrestru ar gyfer cyrsiau addysg uwch yng Nghymru? (OAQ6690)

**Tom Middlehurst:** Yr Adran Addysg a Chyflogaeth sydd â'r cyfrifoldeb dros bolisi ffioedd hyfforddi. Ni ddatganolwyd y swyddogaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Felly, mae asesu effaith ffioedd hyfforddi ar niferoedd myfyrwyr yn fater i'r Adran Addysg a Chyflogaeth. Fodd bynnag, byddwch yn falch o nodi, yn ôl y ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau ar 6 Medi, fod nifer y myfyrwyr a dderbyniodd le mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn 1 y cant yn uwch nag ar yr un adeg y llynedd.

### Gweinyddu a Dyrannu Cronfeydd Mynediad

**C10 Brian Hancock:** Pa fecanweithiau sydd ar gael i sicrhau bod sefydliadau addysg bellach ac uwch yn rhannu arferion da o ran gweinyddu a dyrannu cronfeydd mynediad? (OAQ6731)

**Tom Middlehurst:** Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dosbarthu cyfarwyddyd ar ddefnyddio cronfeydd mynediad i'r sectorau addysg bellach ac uwch y mae'n ofynnol i'r sefydliadau ei ystyried wrth eu rhannu. Anogir yr holl sefydliadau addysg bellach ac uwch yng Nghymru i fod yn rhagweithiol drwy weithio'n gydweithredol lle bynnag y bo'n briodol, a gofynnwyd i Gynghorau Cyllido Cymru enwi enghreifftiau o arfer da yn y defnydd o gronfeydd mynediad yn ystod y flwyddyn academaidd 1999-2000 i'w dosbarthu'n ehangach.

### Ffioedd Dysgu (Effaith ar Niferoedd sydd yn Cofrestru ar gyfer Cyrsiau Addysg Uwch)

**C11 Christine Humphreys:** Pa asesiad a wnaethpwyd o effaith ffioedd dysgu ar y nifer o fyfyrwyr sydd yn cofrestru ar gyfer cyrsiau addysg uwch yng Nghymru? (OAQ6742)

**Tom Middlehurst:** Yr Adran Addysg a Chyflogaeth sydd â'r cyfrifoldeb dros bolisi ffioedd hyfforddi. Ni ddatganolwyd y swyddogaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Felly, mae asesu effaith ffioedd hyfforddi ar niferoedd myfyrwyr yn fater i'r Adran Addysg a Chyflogaeth. Fodd bynnag, byddwch yn falch o nodi, yn ôl y ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau ar 6 Medi, fod nifer y myfyrwyr a dderbyniodd le mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn 1 y cant yn uwch nag ar yr un adeg y llynedd.

### Cyfraniad i Gromen y Mileniwm (Effaith ar Arian sydd ar gael i Elusennau Cymru)

**C12 David Davies:** A fydd y cyfraniad o £47 miliwn i Gromen y Mileniwm yn effeithio ar faint o arian sydd ar gael i elusennau yng Nghymru? (OAQ6681)

**Tom Middlehurst:** Ni fydd y grant ychwanegol i'r New Millennium Dome Experience Company, sydd yn rhedeg y Dôm, yn effeithio ar y symiau o gyllid yng Nghymru i Fwrdd Elusennau'r Loteri

Genedlaethol, Cronfa Dreftadaeth Genedlaethol y Loteri, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru.

Fodd bynnag, mae'n debygol mai effaith y grantiau ychwanegol fydd gohirio trosglwyddo cyfran Comisiwn y Mileniwm o'r cronfeydd loteri i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Ni fydd hyn yn effeithio ar gyfanswm y cyllid a fydd ar gael ar gyfer mentrau cyfredol y Gronfa.

**Cyngor Celfyddydau Cymru (Adolygiad o Strwythur Rheoli)**

**C13 Michael German:** Pa gamau y bydd Tom Middlehurst yn eu cymryd ar ôl cyhoeddi'r adolygiad o strwythur rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru? (OAQ6689)

**Tom Middlehurst:** Byddaf yn cynnal trafodaethau â Chadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru er mwyn ystyried pa gamau y bydd yn rhaid i'r Cyngor eu cymryd i weithredu argymhellion Adroddiad Wallace.

**Cronfa Goffa Treftadaeth Genedlaethol**

**C14 Nick Bourne:** A wnaiff Tom Middlehurst restru faint o arian sydd wedi'i ddyrannu i amgueddfeydd ac orielau Cymru drwy'r Gronfa Goffa Treftadaeth Genedlaethol, ac a wnaiff restru'r amgueddfeydd ac orielau hynny sydd wedi elwa o'r arian hwn? (OAQ6691)

**Tom Middlehurst:** Mae hyn yn fater gweithredol i Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Gofynnais i Ms Jennifer Stewart, Rheolwr y Gronfa dros Gymru, anfon ateb llawn atoch, a byddaf yn trefnu i osod copi o'r ateb hwnnw yn y Llyfrgell.

**Sgiliau Allweddol mewn Addysg Ôl-16**

**C15 Christine Gwyther:** A wnaiff Tom Middlehurst ddatganiad ynghylch rôl sgiliau allweddol mewn addysg ôl-16? (OAQ6636)

**Tom Middlehurst:** Mae sgiliau allweddol yn rhan bwysig o addysg ôl-16. Dyna pam yr ydym wedi sefydlu cymhwyster sgiliau allweddol newydd. Mae'r cymhwyster newydd hwn yn cynnwys sgiliau allweddol cyfathrebu, cymhwyso rhifau a thechnoleg gwybodaeth. Mae ar gael mewn ysgolion, colegau ac mewn llwybrau sydd yn seiliedig ar waith. Mae'r Cynulliad hwn yn ariannu rhaglen eang i gefnogi sefydlu'r cymhwyster sgiliau allweddol.

Mae'r Cynulliad hefyd yn cydnabod pwysigrwydd y sgiliau allweddol ehangach–gweithio gydag eraill, gwella'ch dysgu a'ch perfformiad eich hun a datrys problemau a fawr werthfawrogir gan gyflogwyr.

Yn ei lythyrau cylch gorchwyl, rhoddodd y Cynulliad wahoddiad i Gynghorau Cyllido Cymru asesu'r graddau y mae sefydliadau addysg bellach ac uwch yn hyrwyddo'r sgiliau hyn ac ystyried a ddylid darparu cyllid ychwanegol i sefydliadau sydd yn hybu dysgu sgiliau sydd yn ymwneud â gwaith ymysg yr holl fyfyrwyr.

**Dysgu Gydol Oes o fewn Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch**

**C16 Richard Edwards:** A oes gan Tom Middlehurst unrhyw gynlluniau i wella dysgu gydol oes ymhellach o fewn sefydliadau addysg bellach ac uwch? (OAQ6639)

**Tom Middlehurst:** Mae sefydliadau addysg bellach wrth graidd cynlluniau'r Cynulliad ar gyfer diwylliant dysgu gydol oes dynamig a chynaliadwy yng Nghymru. Atgyfnerthir cyfraniad y sector addysg bellach a'i bartneriaid ymhellach pan weithredir cynlluniau'r Cynulliad ar gyfer ailstrwythuro systemau addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru y flwyddyn nesaf. Mae ein sefydliadau addysg uwch yr un mor ymroddedig i ehangu cyfranogiad mewn dysgu ôl-16, ac fe'u hanogwyd i weithio mewn partneriaeth â'r sector addysg bellach er mwyn helpu i gyflawni nodau'r Cynulliad ar gyfer dysgu gydol oes.

**Trafodaethau am Ddyfodol Cyngor Celfyddydau Cymru**

**C17 Owen John Thomas:** Pa drafodaethau sydd wedi bod rhwng Tom Middlehurst a bwrdd a swyddogion Cyngor Celfyddydau Cymru ynghylch dyfodol y corff hwnnw? (OAQ6672)

**Tom Middlehurst:** Buasai'n amhriodol cynnal trafodaethau o'r fath cyn derbyn adroddiad Richard Wallace. A'r adroddiad bellach wedi ei gynhyrchu, byddaf yn cynnal trafodaethau â Chadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru i ystyried pa gamau y bydd yn rhaid i'r Cyngor eu cymryd er mwyn rhoi ei argymhellion ar waith.

**Dyfodol Cyngor Celfyddydau Cymru**

**C18 Peter Black:** A wnaiff Tom Middlehurst ddatganiad ynghylch dyfodol Cyngor Celfyddydau Cymru? (OAQ6640)

**Tom Middlehurst:** Byddaf yn cynnal trafodaethau â Chadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru i ystyried pa gamau y bydd yn rhaid i'r Cyngor eu cymryd er mwyn rhoi argymhellion Adroddiad Wallace ar waith.

**Polisïau Atal Bwlian mewn Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch**

**C19 Jane Davidson:** Pa gymorth y gall y Cynulliad ei roi i sicrhau bod gan bob sefydliad addysg bellach ac uwch bolisïau atal bwlian? (OAQ6718)

**Tom Middlehurst:** Mae'r Cynulliad yn cydnabod mor bwysig yw sicrhau bod myfyrwyr a staff mewn sefydliadau addysg bellach ac uwch yn gallu dysgu a chael eu dysgu yn yr amgylchedd gorau posibl. Ni ellir goddef bwlio, ym mha bynnag ffurf y'i ceir. Mae'r sefydliadau yn rhoi pwys mawr iawn ar les myfyrwyr a staff a sefydlasant weithdrefnau cwyno eglur i ddynodi ac ymdrin ag unrhyw broblemau.

**Effaith Cynigion y Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant**

**C20 Alison Halford:** Pa sicrwydd all Tom Middlehurst ei roi i brifathrawon yn Nelyn na fydd cynigion y cynllun gweithredu addysg a hyfforddiant yn cael effaith andwyol ar eu cyllidebau ysgol? (OAQ6671)

**Tom Middlehurst:** Bydd yn ofynnol i'r Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru ymgymryd ag arolwg cynhwysfawr o'r trefniadau presennol ar gyfer ariannu a darparu dysgu ôl-16 ar ôl iddo ddod i rym ar 1 Ebrill 2001. Disgwylir iddo ddynodi sut y gellir gwella'r modd y caiff adnoddau eu dosbarthu a'u defnyddio er mwyn cael gwell gwerth am arian. Er na ellir rhagweld effaith bosibl arolwg o'r fath ar ddarparwyr gwasanaeth unigol ymlaen llaw, mae'n debygol y bydd unrhyw newidiadau yn y trefniadau presennol yn cael eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod o amser fel y gall y darparwyr ymaddasu.

**Gwella Hyfforddiant Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**

**C21 Alun Cairns:** A wnaiff Tom Middlehurst ddatganiad ar wella hyfforddiant technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar gyfer busnesau bach? (OAQ6686)

**Tom Middlehurst:** Mae'r Cynulliad yn cydnabod bod hyfforddiant priodol yn holl bwysig wrth gynorthwyo cwmnïau i elwa ar fanteision technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae amrediad o raglenni, prosiectau a mentrau ar waith er mwyn helpu cwmnïau i ddynodi'r hyfforddiant y mae arnynt ei angen fel y gallant geisio hyfforddiant perthnasol gan ddarparwyr hyfforddiant addas. Gallai'r darparwyr hyn fod yn y sector preifat neu'r sector cyhoeddus, yn ôl yr angen.

**Graddau Sylfaen Dwy Flynedd**

**C22 Pauline Jarman:** Pa gyfarfodydd y mae Tom Middlehurst wedi'u cael gyda chynrychiolwyr

sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i drafod cyflwyno'r graddau sylfaen dwy flynedd eleni? (OAQ6723)

**Tom Middlehurst:** Ni chefais gyfarfodydd â'r sefydliadau addysg uwch ynghylch y mater hwn, ond gofynnais i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am gyngor ynghylch y modd y gellid patrymu a sefydlu'r llwybr posibl yng Nghymru at radd ddwy flynedd ac iddi werth uchel ar y farchnad.

**Cyfleoedd mewn Addysg Uwch i Fyfyrwyr Hŷn**

**C23 Janet Ryder:** Pa fesurau y mae Tom Middlehurst yn eu cymryd i ymestyn y cyfleoedd mewn addysg uwch i fyfyrwyr hŷn? (OAQ6730)

**Tom Middlehurst:** Yn ogystal â'r mesurau a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth—yn enwedig y benthyciadau o hyd at £500 y flwyddyn sydd ar gael i fyfyrwyr rhan amser mewn addysg uwch—yr wyf wedi darparu £3.825 miliwn ar gyfer cronfeydd caledi i'w defnyddio mewn sefydliadau addysg uwch y gall myfyrwyr hŷn dderbyn cymorth oddi wrthynt. Yr wyf hefyd wedi darparu £0.949 miliwn i ddarparu bwrsarïau anad-daladwy i fyfyrwyr hŷn llawn amser a chanddynt ddibynyddion yn y flwyddyn academaidd 2000-01.

**Canolfan y Celfyddydau Gweledol**

**C24 Jenny Randerson:** A yw Tom Middlehurst wedi cael unrhyw drafodaethau yn ystod y deufis diwethaf gyda chynrychiolwyr Canolfan y Celfyddydau Gweledol yng Nghaerdydd? (OAQ6647) [R]

**Tom Middlehurst:** Nac ydwyf. Darparwyd y cyllid ar gyfer Canolfan y Celfyddydau Gweledol gan Gyngor Celfyddydau Cymru, ymysg eraill. Mater i'r Cyngor yw cynnal unrhyw drafodaethau gydag ymddiriedolwyr y ganolfan.

**Dyfodol Canolfan y Celfyddydau Gweledol**

**C25 Jonathan Morgan:** A yw Tom Middlehurst wedi cael sylwadau am ddyfodol Canolfan y Celfyddydau Gweledol yng Nghaerdydd? (OAQ6627)

**Tom Middlehurst:** Yr wyf wedi derbyn nifer o lythyrau ar y mater hwn. Eglurais ym mhob achos mai mater i Gyngor Celfyddydau Cymru, sydd yn darparu cyllid refeniw ar gyfer y ganolfan, yw cynnal trafodaethau â'r ganolfan ynghylch ei dyfodol.

**Denu Cwpan Ryder i Gymru**

**C26 Glyn Davies:** Pa gamau y mae Tom Middlehurst yn eu cymryd i ddenu Cwpan Ryder i Gymru? (OAQ6669) [R]

**Tom Middlehurst:** Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar y cyd â Bwrdd Croeso Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru, yn cymeradwyo ac yn cefnogi cynnig Cymru i gynnal Cwpan Ryder yn 2009.

Mae'r Prif Ysgrifennydd, ar ran y Cynulliad, wedi ysgrifennu at Gymdeithas Golffwyr Proffesiynol Ewrop i nodi'n ffurfiol fwriad Cymru i gyflwyno cynnig, sydd i fod i'w dderbyn erbyn diwedd Hydref 2000. Mae'r Cynulliad wedi darparu cyllid ychwanegol o hyd at £200,000 i Fwrdd Croeso Cymru i helpu i ariannu'r gwaith o'i baratoi.

**Cydweithrediad Rhwng Colegau Addysg Bellach ac Uwch**

**C27 Peter Rogers:** Sut, mewn ardaloedd mawr ac amrywiol fel gogledd Cymru, y gellir cael cydweithrediad rhwng colegau addysg bellach ac addysg uwch, pan fo llawer o sefydliadau wedi cystadlu

yn erbyn ei gilydd? (OAQ6683)

**Tom Middlehurst:** Mae sefydliadau addysg bellach ac uwch yng Nghymru wedi ymrwymo i gefnogi cyfleoedd ar gyfer cydweithredu. Yn wir, mae'r sefydliadau yn cydweithredu eisoes ac maent yn gwneud hynny ers cryn amser. Mae Prifysgol Gymunedol Gogledd Cymru yn enghraifft glasurol o hynny. Ceir gwell cyfleoedd ar gyfer cydweithrediad rhwng sefydliadau addysg bellach ac uwch a phartneriaid eraill drwy'r ailstrwythuro o addysg a hyfforddiant ôl-16 a nodwyd yn y cynllun gweithredu addysg a hyfforddiant i Gymru a'i gymeradwyo gan y Cynulliad.

**Hyfforddi Athrawon i Ddelio â Bwlian**

**C28 Jane Davidson:** Pa gymorth all y Cynulliad ei roi i athrawon i sicrhau eu bod yn cael yr hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd yn angenrheidiol i ddelio ag unrhyw ddigwyddiadau o fwlian yn ein hysgolion? (OAQ6719)
***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd Addsyg a Phlant***

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant (Rosemary Butler):** O dan y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, mae penaethiaid ysgolion yn gorfod sicrhau bod mesurau effeithiol ar waith gan eu hysgolion i atal pob ffurf ar fwlio. Mae cylchlythyr y Cynulliad Cenedlaethol 3/99, 'Cefnogi Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol', yn cyflwyno cyfarwyddyd ymarferol ar hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad a disgyblaeth ymysg disgyblion, gan gynnwys cyngor ar strategaethau atal bwlio. Dylai'r strategaethau hyn fod wrth graidd polisïau ymddygiad ysgolion, a rhoi ar ddeall y bydd yr ysgol yn cymryd camau buan a chadarn o ganlyniad i'r ymddiriedaeth gan ddisgyblion wrth roi gwybod am unrhyw achos o fwlio. Ymysg y gweithgareddau sydd yn gymwys i'w cefnogi o dan y rhaglen grantiau cynnal addysg a hyfforddiant 2000-2001 y mae hyfforddiant rheoli ymddygiad i athrawon ac ymwybyddiaeth atal bwlio.

**Addysg a Hyfforddiant i'r rhai sydd yn Hawlio Budd-daliadau**

**C29 John Griffiths:** Pa gamau pellach fydd Tom Middlehurst yn eu cymryd i leihau fwy fyth y rhwystrau sydd yn wynebu'r sawl sydd yn hawlio budd-daliadau rhag elwa ar addysg a hyfforddiant? (OAQ6654)

**Tom Middlehurst:** Mae'r Adran Nawdd Cymdeithasol wedi egluro'r sefyllfa ynghylch budd-daliadau yn achos myfyrwyr sydd yn derbyn taliadau oddi wrth gronfeydd addysg bellach ac uwch ar gyfer mynediad, gan gynnwys y gronfa bwrsarïau mynediad i fyfyrwyr hŷn mewn addysg uwch, cronfeydd caledi a chronfeydd mynediad addysg bellach. Yr wyf wedi cynnwys yr eglurhad hwn yn y cyfarwyddyd a roddais i Gynghorau Cyllido Cymru ynghylch y defnydd o'r cronfeydd hyn.

**Cynllun Cyfalaf SPORTLOT (Rhan Merched mewn Chwaraeon)**

**C30 Lorraine Barrett:** A fydd Tom Middlehurst yn gwneud datganiad llawn am y gyfran o arian a ddyrannwyd gan Gynllun Cyfalaf SPORTLOT i sefydliadau sydd yn hyrwyddo'r rhan a chwaraeir gan ferched mewn chwaraeon? (OAQ6675)

**Tom Middlehurst:** Rheolir y gronfa loteri chwaraeon SPORTLOT gan Gyngor Chwaraeon Cymru. Rhoddir gwariant SPORTLOT ar grantiau cyfalaf at gyfleusterau sydd yn agored i bawb, beth bynnag fo'u rhyw. Mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau yn gyfleusterau ar gyfer nifer o chwaraeon a fydd yn darparu ar gyfer y gweithgareddau yr arferir eu hystyried yn rhai i fenywod, fel pêl rwyd a ffitrwydd, a'r gweithgareddau sydd yn gymysg fel arfer fel athletau, tennis a nofio.

O'r £51 miliwn a wariwyd ar brosiectau cyfalaf hyd yn hyn, gwariwyd £17 miliwn (33 y cant) ar gyfleusterau ar gyfer nifer o chwaraeon fel neuaddau chwaraeon; £18 miliwn (35 y cant) ar weithgareddau chwaraeon cymysg i ddynion a benywod, fel nofio, seiclo ac athletau; £3 miliwn (6 y cant)

ar weithgareddau i fenywod yn bennaf, fel marchogaeth a gymnasteg a £12.8 miliwn (25 y cant) ar chwaraeon traddodiadol i ddynion fel pêl droed, rygbi a chriced.

Mae'r gwariant arall gan SPORTLOT bellach ar ffurf grantiau refeniw sydd yn gallu targedu grwpiau penodol o bobl yn fwy effeithiol. Er enghraifft, mae cynllun Elite Cymru wedi cefnogi 54 o fenywod a 94 o wrywod ac mae'r cynllun Cist Gymunedol wedi bod o fudd i 3,214 o fenywod a merched (43 y cant o gyfanswm y grantiau).